PWYLLGOR CYSWLLT SECTOR GWIRFODDOL YNYS MÔN

CYLCH GORCHWYL

Nodau

1 Diben y Compact yw i strwythuro a chanolbwyntio'r berthynas rhwng yr Awdurdod Lleol, Bwrdd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Trydydd Sector ar Ynys Môn. Bydd y Pwyllgor yn:

1.1 Datblygu, gweithredu, monitro ac adolygu'r Compact
1.2 Cynhyrchu Cynllun Gweithredu Compact sy'n nodi amcanion a thargedau
1.3 Monitro ac adolygu'r Cynllun Gweithredu yn flynyddol
1.4 Sicrhau datblygiad y Codau Ymarfer a nodwyd yn y Compact
1.5 Sicrhau bod y Codau Ymarfer yn cael eu gweithredu a monitro eu heffeithiolrwydd
1.6 Darparu fforwm ar gyfer archwilio materion o bryder i'r ddwy ochr
1.7 Adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol
1.8 Adrodd i gyrff atebol statudol lleol a Bwrdd Medrwn Môn drwy gyflwyno adroddiad blynyddol ar gynnydd

2 Aelodaeth

Cyngor Sir Ynys Môn

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Trydydd Sector
Pedwar cynrychiolydd etholedig
Cadeirydd Medrwn Môn

Sylwedydd
Cynrychiolydd

Dirprwyon
Mae dirprwyo'n dderbyniol gyda chytundeb y Cadeirydd.

3 Cworwm

Y cworwm yw o leiaf dau berson o bob un o'r tair adran cyfansoddol y Bwrdd. Os nad oes cworwm bydd y cyfarfod yn cael ei ailgynnull o fewn 28 diwrnod. Os yw'r cyfarfod yn dal heb gworwm bydd y cyfarfod yn symud ymlaen fel pe bai cworwm yn bresennol.

4 Datganiadau o Ddiddordeb

Rhaid i bob aelod o'r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiant sy'n ymwneud ag eitem benodol ar yr agenda ac yn gadael y cyfarfod tra bod yr eitem yn cael ei ystyried.

5 Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth

Bydd swyddogaeth Cadeirydd y Bwrdd Compact yn digwydd bob yn ail flwyddyn rhwng aelod o'r tri sefydliad cyfansoddol.

Bydd y Bwrdd yn cael ei wasanaethu ar y cyd gan swyddogion penodedig Cyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Medrwn Môn. Bydd Medrwn Môn yn gyfrifol am wasanaethu a chefnogi cynrychiolwyr y trydydd sector.

6 Amlder y Cyfarfodydd

Bydd y Bwrdd yn penderfynu ar ei amserlen ei hun o gyfarfodydd, ond bydd y Grŵp fel arfer yn cyfarfod ar o leiaf 4 achlysur y flwyddyn.

7 Cyfethol

Gall y Bwrdd gyfethol fel y gwelant yn dda. Rhaid i gyfethol o'r fath gael cytundeb llawn o aelodau'r Bwrdd.

8 Adolygiad

Bydd y cylch gorchwyl ac aelodaeth y Bwrdd yn cael ei adolygu yn flynyddol neu'n amlach os oes angen.

ATODIAD

Rhestr o Aelodaeth

Cyngor Sir Ynys Môn
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Trydydd Sector